PRIFYSGOL CYMRU, BANGOR

YSGOL ASTUDIAETHAU TRWY'R GYMRAEG

Cyfarfod: 21 Hydref 2004

Lle: Darllenfa'r Staff

Presennol: Dr Einir Young (Cadeirydd), Llion Dafydd, Jason Walford Davies, Branwen Jarvis, Eifion Lloyd Jones, Bethan Wyn Jones, Llion Jones, Wendy Lloyd Jones, Peredur Lynch, Delyth Morris, Delyth Murphy, Iestyn Pierce, Delyth Prys, Nic Ros, Enlli Thomas, Cen Williams, Dilwyn Roberts-Young (UCAC), Dawi Griffiths (Cofnodion).

Ymddiheuriadau: Margaret Deuchar, Dafydd Roberts, Wyn Thomas, Geraint Hughes, Carys Roberts, Deri Tomos, Gwenno Ffrancon, Elen Huws, Menna Morgan, Gwenan Williams, Eifiona Thomas Lane, Arne Pommerening, Densil Morgan, Gareth Roberts, Gwerfyl Roberts.

1. **LLONGYFARCHIADAU**

Llongyfarchwyd Dr Jason Walford Davies o Adran y Gymraeg ar ennill y Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

2. **YMDDEOL**

Nodwyd mai hwn fyddai cyfarfod olaf Yr Athro Branwen Jarvis yn yr Ysgol gan y bydd yn ymddeol fis Rhagfyr. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad i weithgareddau'r Ysgol dros y blynyddoedd a dymunwyd y gorau iddi yn y dyfodol.

3. **COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Ysgol a gynhaliwyd 21 Ebrill 2004 fel cofnod cywir ar wahân i un cywiriad. Yn **3(ii) (c)** nodwyd mai 'i beidio â gwneud 3 phwnc' oedd yn gywir, yn hytrach nag 'i wneud 3 phwnc'.

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw at rai materion a oedd yn deillio o'r cofnodion:

a) Diolchwyd i bawb a ddaeth i'r cyfarfod yn Oswalds ar 10 Mai. Nodwyd bod y ddogfen wedi cael ei dosbarthu a'i bod yn ymddangos fel pe bai rhai o'r negeseuon wedi cyrraedd y nod, e.e. yr angen am abwyd ariannol.

b) Mynegwyd pryder nad oedd yn hysbys hyd yma sut stondin fydd gan y Brifysgol ar faes Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol y flwyddyn nesaf na sut y bydd aelodau'r Ysgol yn cyfrannu at y rhain - yn enwedig Eisteddfod Eryri 2005. Nid oedd yn glir o gwbl beth oedd y sianelau ar gyfer gwneud hynny a gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr anfon at yr Is-Ganghellor a'r Cofrestrydd i ofyn iddynt am ddyddiad i gyfarfod â hi a'r Is-Gyfarwyddwr er mwyn sicrhau mewnbwn mewn da bryd. Nodwyd hefyd bod Carys Roberts am godi mater cynrychiolaeth y Brifysgol yn y Sioe Frenhinol yn y Pwyllgor Marchnata ar 30 Medi ond na chafwyd ymateb ganddi hyd yma.
c) Nodwyd bod Enlli a Ginny yn bwriadu siarad am eu prawf geirfa Gymraeg yn y gynhadledd ddyslecsia sydd i'w chynnal yn Aberystwyth ar 11 Rhagfyr. Gobeithir y bydd datblygiadau pellach yn deillio o hyn.

5. CYFLWYNIAD GAN DILWYN ROBERTS-YOUNG

Croesawyd Dilwyn Roberts-Young, Cynrychiolydd y Colegau, UCAC, i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar weledigaeth UCAC ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector Addysg Uwch. Rhannodd ei gyflwyniad o dan nifer o is-benawdau:
Cyllid: Wrth ymateb i strategaeth ddrafft y Cyngor Cyllido nodwyd bod prinder cyllid yn fygythiad cynyddol i'r cyfrwng Cymraeg a bod y maes yn dibynnu i raddau helaeth ar ewyllys da a chardod. Dywedodd bod UCAC wedi ymrwymo i'r egwyddor o gael Coleg Ffederal Cymraeg.
Staffio: Nodwyd bod amryw o ddarlithwyr cyfwng Cymraeg yn agosáu at oedran ymddeol a'i bod yn anodd llenwi'r bylchau. Er bod UCAC yn croesawu Ysgoloriaethau a Chymrodoriaethau pwysleisiwyd mai'r hyn sydd wir ei angen yw cynlluniau tymor hir a mwy o hyfforddiant ar gyfer staff ac, efallai, gymhelliant ariannol.
Academaidd: Pwysleisiwyd yr angen i greu hinsawdd sy'n ysgogi staff i gyflawni gwaith academaidd cyfrwng Cymraeg.
Marchnata: Nodwyd bod gwir angen am strategaeth genedlaethol i ddenu myfyrwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â fframwaith pendant o gyrsiau. Pwysleisiwyd na ellir cael cynnydd o unrhyw safon heb ddatblygiadau o'r fath.

Mewn trafodaeth i ddilyn nodwyd y byddai'n fuddiol cael seminar gyda chynrychiolaeth o UCAC, yr Ysgol ac ysgolion lleol i drafod y sefyllfa. Pwysleisiwyd yr angen i genhadu yn yr ysgolion bod angen trwytho plant yn eu pynciau i sicrhau llwyddiant a bod angen i ysgolion fod yn ymwybodol beth yn union yw natur y broblem, gan fod honno'n codi cyn cyrraedd y sector AU. Bwriedir symud ymlaen yn ystod y misoedd nesaf i gael cyfarfod i agor y drafodaeth ymhellach a bydd Dilwyn Roberts-Young mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr yn trefnu hyn.

6. MATERION Y CYFARWYDDWR

i) Niferoedd siaradwyr Cymraeg yn PCB 2003/04

Nodwyd bod y niferoedd yn uwch nag yn 2002-03 gan ein bod am y tro cyntaf wedi medru cynnwys myfyrwyr yr Adran Dysgu Gydol Oes, sydd wedi'u lleoli yn y gymuned

(sef tua 300 o siaradwyr Cymraeg). Roedd **1061** yn siaradwyr iaith gyntaf a **802** yn ddysgwyr. Fodd bynnag, dim ond **614** oedd yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg a theimlid y dylid gwneud ymdrech i wella hynny.

Mae rhagolygon cynnar o'r data am eleni (2004-05) yn awgrymu bod y niferoedd ychydig yn uwch eto (tua 60 yn fwy), er bod y cynnydd mwyaf yn y categori 'dysgwyr' (tua 50). Eto, mae rhagolygon cynnar o'r data cofrestru modiwlau am 2004/05 yn awgrymu mai 340 C.A.Ll o israddedigion sydd wedi cofrestru ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg, o'i gymharu â 354 yn 2003/04. Nodwyd fodd bynnag y gallai'r ffigurau hyn newid.

Pwysleisiwyd yr angen i adrannau sicrhau bod yr ystadegau hyn a anfonir at HESA yn gywir gan mai ar sail y data hyn y bydd HEFCW yn rhannu arian cyfrwng Cymraeg.

ii) Cymrodoriaethau'r Cyngor Cyllido

Amlinellodd y Cyfarwyddwr y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â'r Cymrodoriaethau uchod. O'r pump a benodwyd o dan y cynllun led led Cymru y flwyddyn academaidd hon, llwyddwyd i ddenu dau i Fangor, sef Guto Puw i'r Ysgol Cerddoriaeth a Dafydd Tudur i'r Adran Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol. Bydd Guto'n datblygu dau fodiwl newydd cyffrous mewn Cyfansoddi Cerddoriaeth a Cherddoriaeth ar y We, tra bydd Dafydd yn datblygu dau fodiwl newydd ar Biwritaniaeth yng Nghymru ac ar Gristnogaeth a Chenedligrwydd Cymreig. Trafodwyd yn fyr hefyd faes gorchwyl y cymrodyr eraill.

Nodwyd bod Seren Haf Roberts, y cymrawd a benodwyd y llynedd, yn parhau yn yr Ysgol Seicoleg a bod Dewi Prysor Jones yn gymrawd yn Ysgol y Gyfraith.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw hefyd at y syniad o gael rhwydwaith o fyfyrwyr PhD Cymraeg o bob maes ar draws Cymru. I'r perwyl hwn roedd wedi bod yn casglu enwau myfyrwyr PhD ym Mangor sy'n medru siarad Cymraeg ac wedi rhyfeddu bod cynifer ohonynt, sef 24 - ac nid yw hwnnw'n rhif terfynol o bell ffordd. Nodwyd y gobeithir trefnu diwrnod yn Aberystwyth yn Rhagfyr neu Ionawr i'r Cymrodyr, y myfyrwyr hyn (a'u cymheiriaid o golegau eraill Cymru) a'u mentoriaid ddod at ei gilydd i drafod amrywiol faterion. Mae'r Cyngor Cyllido wedi cytuno i ariannu'r cynllun.

iii) Ymateb i strategaeth ddrafft y Cyngor Cyllido

Atgoffawyd yr aelodau y cafwyd cyfarfod arbennig i drafod hyn ar 16 Gorffennaf. Anfonwyd sylwadau'r Ysgol at y Cyngor Cyllido ac anfonwyd ymateb swyddogol ar ran y sefydliad. Yn yr ymateb cryf a di-flewyn-ar-dafod hwnnw mae'r Is-Ganghellor wedi awgrymu'n gryf bod y coleg yn credu y dylid cael abwyd ariannol i ddenu myfyrwyr cyfrwng Cymraeg, gan seilio'r ddadl ar y cynsail a wnaed gyda'r cynllun cymhelliant i athrawon.

Calonogwyd y cyfarfod gan gryfder a chadernid y neges a anfonwyd a gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr roi gwybod i'r Is-Ganghellor beth oedd teimlad y cyfarfod. Er

gwybodaeth, gofynnwyd iddi hefyd ofyn iddo beth oedd sail y dybiaeth bod y rhai sy'n astudio drwy'r Gymraeg yn dymuno amrywio eu hiaith addysgu.

iv) Cais Bwrdd y Brifysgol ar gyfer Dysgu Trwy'r Gymraeg i'r gronfa ail-gyflunio

Nodwyd bod dwy elfen i'r cais ac mai dim ond un sydd wedi cael sylw HEFCW hyd yma, sef y cynllun Ysgoloriaethau a Chymrodoriaethau. Bydd 50 o staff yn cael eu hyfforddi o dan y cynllun rhwng 2005-2010.

Bydd y Cyngor Cyllido'n ymdrin â'r ail agwedd, sef ymarfer asesu opsiynau, yn fuan.

v) Adolygu'r Cynllun Iaith a Datblygu'r Strategaeth Academaidd

Dywedodd y Cyfarwyddwr ei bod hi a'r Athro Gareth Roberts yn casglu gwybodaeth gan adrannau ac ysgolion ar sail yr hyn oedd yng Nghynllun Iaith 2000, canlyniad proses fonitro 2002, a'r hyn a adroddwyd wrth ymgynghoriad PDIG. Bydd angen i adrannau ailedrych ar eu targedau yng ngoleuni Cynllun Strategol 2003/04 – 2007/08 PCB a'r ymrwymiad i'r Rhanbarth a welir ynddo.

vi) Fframwaith Gwneud Penderfyniadau: Y Ffordd Ymlaen

Nodwyd y bydd PACI, PYCI a'r Pwyllgor Dwyieithrwydd yn parhau a bod PAG wedi ei ailenwi'n Grŵp Tasg Astudiaethau Trwy'r Gymraeg, gan gadw'r un aelodaeth fwy neu lai. Fodd bynnag, nid yw'r Ysgol Astudiaethau Trwy'r Gymraeg yn ymddangos yn y fframwaith newydd. Teimlid nad oedd neb i hybu cyfrwng Cymraeg yn arbennig yn y Bwrdd Penaethiaid Canolfannau Cost ac y dylai'r Cyfarwyddwr fod ar y Bwrdd hwnnw er mwyn cael llais pendant ar y lefel honno a dwyn materion perthnasol i sylw'r Dirprwy-Is-Ganghellor sydd â chyfrifoldeb dros gyfrwng Cymraeg (Yr Athro Gareth Roberts). Penderfynwyd y byddai'n fuddiol i gynrychiolaeth o'r Ysgol gael sgwrs â Gareth i weld beth yn union fydd y llwybr at y Pwyllgor Gwaith.

7. ADRODDIAD CYFARWYDDWR CANOLFAN BEDWYR

Dosbarthwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cyfarwyddwr, Dr Cen Williams, a thynnodd sylw at rai o'r prif faterion:

Cyffredinol: Nododd bod y Ganolfan bellach wedi ymgartrefu ym Mryn Haul a bod croeso i unrhyw ddod draw ar ymweliad.

Bu'r flwyddyn 2003-04 yn un lwyddiannus iawn i'r Ganolfan o ran denu arian incwm. Enillwyd cyfanswm o £572,000 o arian ymchwil, gyda'r uned e-Gymraeg yn denu'r mwyafrif llethol o'r cyllid hwn.

Nodwyd hefyd y bydd tîm Arolwg Ansawdd mewnol yn ymweld â Chanolfan Bedwyr ym Mawrth 2005.

Uned Gyfieithu: Adroddwyd bod yr uned wedi dechrau defnyddio rhaglen cof cyfieithu Wordfast erbyn hyn. Hefyd, bod Meg Elis wedi cydweithio llawer â'r Athro Thomas Watkins, Ysgol y Gyfraith, a bod cyfarfod pellach wedi ei drefnu i drafod termau'r gyfraith.

e-Gymraeg: Nodwyd bod pecyn Cysgliad wedi ei orffen a'i lansio yn yr Eisteddfod. Mae'n gwerthu'n dda a llawer o sefydliadau wedi prynu trwyddedau i'w ddefnyddio erbyn hyn.
Adroddwyd hefyd bod staff yr uned Enwau Lleoedd wedi cael eu trosglwyddo'n llawn-amser i Ganolfan Bedwyr erbyn hyn a bod 3 o swyddi newydd eraill wedi eu creu yn y maes e-Gymraeg.

Cymraeg Clir: Nodwyd bod Maes Llafur 4 y cymhwyster ECDL (Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd) wedi cael ei gyfieithu a bod rhagor o waith i ddod. Mae'r uned hefyd yn dal i gael gwaith o nifer o gyrff eraill.
Adroddwyd bod y Cynllun Partneriaeth Cymraeg Clir hefyd yn ennill tir a bod nifer o gyrff, megis Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, Cyngor Conwy a Chyngor Sir Gaerfyrddin, yn awyddus i'w cyfieithwyr gael hyfforddiant i ennill yr hawl i ddefnyddio'r marc CC.

Gloywi Iaith: Nodwyd bod cyfanswm o 25 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar y modiwlau a bod y gwaith dysgu wedi dechrau. Fodd bynnag, roedd y nifer a oedd wedi cofrestru ar rai cyrsiau'n siomedig – dim ond 2 oedd wedi cofrestru ar gwrs Gloywi'r Adran Dysgu Gydol Oes a 6 yn unig ar y modiwl Cyfathrebu.

Cynllun Iaith: Nodwyd bod drafft terfynol llawlyfr sy'n rhoi arweiniad ar benodi staff yn unol â gofynion y Cynllun Iaith wedi mynd i'w gyfieithu er mwyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a'r Pwyllgor Dwyieithrwydd ym mis Tachwedd. Dywedwyd hefyd bod llawlyfr a thâp fideo ar lefelau iaith, i gynorthwyo rhai sy'n penodi i wahanol adrannau'r Brifysgol, wedi cael eu gorffen.

8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Mercher, 2 Chwefror 2005 am 5.00 p.m. yn Ystafell y Cyngor.